

Canllawiau Prifysgol i Dreuliau Lleoliadau Ymarfer ar gyfer myfyrwyr bwrsariaeth GIG Cymru

Cynnwys

1. Diffiniad o Dreuliau Lleoliad Ymarfer
2. Pwy sydd â hawl i hawlio?
 - 2.1 Myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2014.
 - 2.2 Myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs cyn 1 Medi 2014
3. Trafnidiaeth
 - 3.1 Canllawiau cyffredinol
 - 3.2 Defnyddio cerbydau modur
 - 3.3 Parcio ceir a thollau twnnel/pont
 - 3.4 Teithio ychwanegol tra ar leoliad
 - 3.5 Defnyddio ceir llog
 - 3.6 Defnyddio tacsis
4. Costau llety
5. Sut mae myfyrwyr yn gwneud cais am gostau lleoliad?
 - 5.1 Cyfrifoldebau myfyrwyr
 - 5.2 Cyfrifoldebau gweinyddwr y Brifysgol

1. Diffiniad o Dreuliau Lleoliad Ymarfer

Gallai myfyrwyr a gomisiynwyd gan GIG Cymru y mae'n rhaid iddynt ymgymryd â lleoliad ymarfer fel rhan o'u cwrs fod â hawl i gael costau teithiau rhwng eu preswylfa yn ystod y tymor a safle'r lleoliad ymarfer (nad yw'n rhan o'u prifysgol/coleg) wedi'u had-dalu. Gelwir y rhain yn Dreuliau Lleoliad Ymarfer. Rhaid i unrhyw dreuliau a hawlir fod yn unol â rheolau Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Mae lleoliadau ymarfer yn cynnwys hyfforddiant mewn ysbytai, gwasanaethau iechyd cymunedol neu leoliadau perthnasol eraill (yn unol â'r proffesiwn sy'n cael ei astudio) yn hytrach nag mewn ystafell ddosbarth. Rhaid i'r gost ddyddiol o deithio i safle'r lleoliad ymarfer fod yn fwy na'r gost arferol o deithio bob dydd o'r breswylfa yn ystod y tymor i'r brifysgol/coleg.

Gall myfyrwyr hefyd hawlio costau llety ychwanegol os ydynt ar leoliad ymarfer, yn byw i ffwrdd o'u cyfeiriad yn ystod y tymor ac yn gorfod talu costau eu llety tra ar leoliad a chadw eu llety yn ystod y tymor.

Ni ellir hawlio costau sy'n gysylltiedig â lleoliadau dramor.

Myfyrwyr rhan-amser

Er bod cyfradd eu bwrsariaeth yn cael ei chyfrifo pro rata, mae gan fyfyrwyr rhan-amser hawl i'r un treuliau lleoliad ymarfer â myfyriwr llawn amser.

2. Pwy sydd â hawl i hawlio?

Mae gan fyfyrwyr sydd wedi derbyn bwrsariaeth GIG Cymru a hefyd myfyrwyr sydd wedi dewis ariannu eu hunain drwy gyllid myfyrwyr hawl i hawlio Treuliau Lleoliad Ymarfer. Bydd myfyrwyr sydd wedi derbyn bwrsariaeth yn derbyn Hysbysiad o Ddyfarniad (NOA) a fydd yn amlinellu faint o fwrsariaeth y byddant yn ei derbyn ar gyfer y flwyddyn academaidd.

3. Trafnidiaeth

3.1 Canllawiau cyffredinol

Dylech chi ddefnyddio'r dull rhataf o deithio, gan fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gynlluniau teithio am ddim neu gynlluniau teithio rhatach. Disgwylir i fyfyrwyr deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus lle mae'n rhesymol ymarferol gwneud hynny. Os ydych yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, galwch hawlio cost pris eich siwrnai. Rhaid i fyfyrwyr ddefnyddio'r llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael bob amser wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'w lleoliad.

Os canfyddir y bydd prynu tocyn misol/wythnosol yn rhatach na thalu cyfradd siwrneiau dyddiol trwy gydol y lleoliad, rhaid ad-dalu swm misol/wythnosol llawn y tocyn.

Bydd angen i fyfyrwyr gadw'r holl dderbynebaw (h.y. tocynnau bws/trên) a chyflwyno'r rhain gyda'u ffurflen hawlio fel prawf o'r siwrneiau y maent wedi ymgymryd â nhw.

Gall myfyrwyr wneud hawliad am y gwahaniaeth rhwng cost teithio bob dydd o'r llety arferol yn ystod y tymor i'r safle lleoliad ymarfer ac yn ôl.

Rhaid i gost y daith ddychwelyd ddyddiol i'r lleoliad fod yn fwy na chost y daith ddychwelyd ddyddiol i'r brifysgol.

Enghraifft A:

O'r breswylfa yn ystod y tymor i'r man astudio arferol = £5.00 y dydd

O'r breswylfa yn ystod y tymor i'r safle lleoliad = £4.00 y dydd

Ni chaniateir hawliad gan nad yw'r gost o deithio i'r lleoliad yn fwy na'r costau teithio dyddiol arferol i'r man astudio.

Enghraifft B:

O'r breswylfa yn ystod y tymor i'r man astudio arferol = £6.00 y dydd

O'r breswylfa yn ystod y tymor i'r safle lleoliad = £10.50 y dydd

Caniateir hawliad o £4.50 y dydd. Gan fod cost teithio i'r lleoliad yn fwy na'r gost arferol o deithio bob dydd, gellir hawlio'r gwahaniaeth rhwng y ddau swm

Enghraifft C:

O'r breswylfa yn ystod y tymor i'r man astudio arferol = £6.00 y dydd

O'r breswylfa yn ystod y tymor i'r safle lleoliad = £6.00 y dydd

Ni chaniateir hawliad gan nad yw'r gost o deithio i'r lleoliad yn fwy na'r costau teithio dyddiol arferol i'r man astudio.

3.2 Defnyddio cerbydau modur

Disgwylir i fyfyrwyr ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Os ydynt yn dewis defnyddio eu cerbyd modur eu hunain, dim ond os yw hyn yn llai na'r costau milltiroedd priodol y gallant hawlio'r gost o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Rhaid i fyfyrwyr ddefnyddio'r llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael bob amser wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'w lleoliad.

Pan fydd mathau rhatach eraill o deithio yn anaddas neu ddim ar gael ar gyfer teithio ar leoliad ymarfer, rhaid i fyfyrwyr gael cytundeb gan eu prifysgol, cyn y lleoliad, y gellir defnyddio eu cerbyd modur eu hunain a rhaid i hyn gael ei ardystio ar unrhyw hawliadau a wneir gan y myfyriwr.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw cael cadarnhad gan ei yswirwyr bod ganddynt yswiriant digonol ar gyfer yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cerbyd modur wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad. Dylai hyn hefyd gynnwys cludo unrhyw deithwyr os bydd y myfyriwr yn mynd â myfyrwyr eraill gyda nhw.

Dylai myfyrwyr sy'n teithio mewn cerbyd modur preifat gael gwybod eu bod yn gwneud hynny ar eu risg eu hunain. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau teithio mewn cerbydau modur preifat yn golygu derbyn unrhyw atebolrwydd gan eu prifysgol, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) nac unrhyw gorff GIG arall am y risgiau sy'n codi o'r defnydd o'r cerbyd modur preifat dan sylw.

.

Os bydd myfyriwr hefyd yn gyrru myfyrwyr eraill a ariennir gan y GIG i'r safle lleoliad, gallant hawlio swm ychwanegol fesul milltir ar gyfer pob myfyriwr ychwanegol. Rhaid i'r myfyrwyr hyn hefyd fod yn gymwys i hawlio costau teithio ar leoliad a rhaid i'r gyrrwr fod wedi'i yswirio i gludo teithwyr. Bydd angen darparu manylion y teithiwr, gan gynnwys eu cyfeirnod SAS.

Ni ellir hawlio milltiroedd os yw aelod o'r teulu neu bartner yn gyrru'r myfyriwr i a/neu o leoliadau ymarfer.

Gwario hawliadau milltiroedd

I gadarnhau bod myfyriwr yn hawlio'r milltiroedd cywir ar gyfer eu taith i leoliad ymarfer, rhaid i fyfyrwyr nodi ar y ffurflen hawlio pa offeryn cynlluniwr llwybrau cydnabyddedig a ddefnyddiwyd ganddynt, megis RAC, AA neu Google Maps. Dylid nodi'r cynllunydd llwybr a ddefnyddir ar y ffurflen hawlio ynghyd â manylion unrhyw newid yn y llwybr a gymerwyd e.e. oherwydd gwaith ffordd/cau. Gwiriwch y llwybr hwn yn erbyn yr hyn y mae'r myfyriwr wedi'i nodi cyn i chi gymeradwyo'r hawliad.

3.3 Parcio ceir a thollau twnnel/pont

Gall myfyrwyr hawlio'n ôl gost parcio ceir a thollau twnnel/pont os bydd hyn, ynghyd â'u milltiroedd, yn golygu bod y gost ddyddiol yn fwy na'r gost ddyddiol arferol i'r brifysgol. Lle mae hyn yn wir, gall myfyrwyr wneud hawliad am y gwahaniaeth. Rhaid i'r myfyriwr ddarparu derbynebaw (electronig neu bapur) er mwyn hawlio'r costau hyn.

Ni ellir ad-dalu cost parcio ceir a thollau lle nad yw milltiroedd yn cael eu hawlio.

3.4 Teithio ychwanegol tra ar leoliad

Gellir hawlio costau milltiroedd/teithio ychwanegol os oes rhaid i fyfyrwr deithio i safleoedd lleoliad clinigol eraill, a/neu i gyfeiriadau cartref cleifion (os na roddir cludiant am ddim i'r myfyriwr).

Rhaid i unrhyw filltiroedd cymunedol a gafwyd barhau i fod yn fwy na chost milltiroedd dyddiol y myfyriwr yn ôl ac ymlaen i'w man astudio arferol. Ni fydd milltiroedd cymunedol yn unig yn cael eu had-dalu os nad yw'n fwy na hynny.

Enghraifft A:

Teithio dyddiol i'r man astudio arferol = 35 milltir y dydd

Milltiroedd cymunedol a milltiroedd i'r safle lleoliad ac oddi yno = 25 milltir y dydd

Ni chaniateir hawliad gan nad yw'n fwy na'r teithio dyddiol arferol.

Enghraifft B:

Teithio dyddiol i'r man astudio arferol = 35 milltir y dydd

Teithio dyddiol i safle lleoliad A milltiroedd cymunedol = 40 milltir y dydd

Caniateir hawliad o 5 milltir y dydd.

3.5 Defnyddio ceir llog

Dim ond os mai hwn oedd yr unig ffordd ymarferol neu'r ffordd rataf o gynnal y lleoliad y gellir hawlio'r defnydd o geir llog. Os yw hyn yn wir, rhaid i'r brifysgol roi llythyr i'r myfyriwr sy'n ardystio'n swyddogol mai dyma'r unig ffordd ymarferol neu rataf o deithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad. Dylid cytuno ar hyn gyda'r myfyriwr bob amser cyn y lleoliad. Rhaid cyflwyno derbynebaw ar gyfer y car llog i chi bob amser gyda'r hawliadau hyn.

Pan fydd car llog wedi cael ei ddefnyddio, gall myfyrwyr hawlio:

- cost llogi'r car (angen derbynebaw)
- cost unrhyw betrol y mae'r myfyriwr wedi'i roi yn y car (angen derbynebaw)
- cost unrhyw barcio car/tollau twnnel (angen derbynebaw)

Ni all myfyrwyr hawlio'r gyfradd milltiroedd fesul milltir wrth ddefnyddio car llog.

3.6 Defnyddio tacsis

Gall Sefydliadau Addysg Uwch ystyried defnyddio tacsis mewn 'Amgylchiadau Eithafol'. Diffinnir 'Amgylchiadau eithafol' fel 'nid oes cludiant cyhoeddus ar gael ac nid yw defnyddio cludiant ei hun yn opsiwn pan fydd angen i fyfyrwr fynd i sifft cynnar neu hwyr ar leoliad'. Dylai Sefydliadau Addysg Uwch gynghori AaGIC am leoliadau yn y dyfodol lle gall mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus fod yn broblem.

Os nad yw tacsis yn cael eu defnyddio mewn 'amgylchiadau eithafol', dim ond ar y gyfradd cludiant cyhoeddus y caiff y myfyrwr ei ad-dalu.

Rhaid i'r brifysgol roi llythyr i'r myfyrwr sy'n ardystio'n swyddogol nad oedd modd osgoi'r defnydd ac y cytunwyd arno. Dylai'r llythyr hwn hefyd amlinellu'r rheswm pam y defnyddiwyd y dull hwn o drafnidiaeth. Dylid cyflwyno derbynebaw bob amser gyda'r mathau hyn o hawliadau.

Disgwylir i fyfyrwyr sy'n defnyddio car symudedd ddefnyddio hwn i deithio yn ôl ac ymlaen i leoliadau ymarfer a hawlio'r cyfraddau milltiroedd teithio arferol. Ni fyddant yn cael eu had-dalu am gost tacsis ar gyfer y teithiau hyn.

Ni fydd cost tocynnau awyr, lluniaeth, lleoedd cysgu, galwadau ffôn ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â lleoliad y myfyrwr yn cael eu had-dalu.

4. Costau llety

Gellir hawlio costau llety hyd at £65 y noson. Mae'r terfyn hwn ar sail dros dro a bydd yn cael ei adolygu ym mis Tachwedd 2022.

Rhaid darparu prawf perthnasol i chi bob amser er mwyn cefnogi hawliadau llety. Ni ddylai prifysgolion brosesu hawliadau lle na ddarparwyd tystiolaeth. Os na all myfyrwr gael y prawf gofynnol am ryw reswm, ni ellir ystyried ei hawliad.

Os oes rhaid i fyfyrwr fyw i ffwrdd o'i lety arferol yn ystod y tymor yn ystod cyfnod o leoliad ymarfer, gall hawlio am gost unrhyw lety dros dro ar neu ger ei safle lleoliad ymarfer os nad oedd yn ymarferol iddynt deithio yno o'u llety arferol bob dydd. Fel rheol, dylai myfyrwyr y mae'n ofynnol iddynt deithio am fwy nag awr o'u lleoliad brifysgol i gael mynediad at leoliad gael cynnig llety. Dim ond am gyfnodau pan fydd yn ymgymryd â lleoliad ymarfer y caiff myfyrwr hawlio. Ni fydd unrhyw seibiannau yn y lleoliad yn cael eu had-dalu gan fod costau llety deuol ond yn berthnasol tra bod y myfyrwr yn mynychu lleoliad mewn gwirionedd.

Fodd bynnag, os mai cartref rhieni/teulu/eu hunain yw eu llety dros dro, ni fyddant yn gallu gwneud cais am eu costau llety. Yn ogystal, ni ellir hawlio am unrhyw gyfnodau lle na chodir tâl ar fyfyrwr am y naill neu'r llall o'r manau llety.

Gall myfyrwyr hawlio cost un siwrnai wythnosol rhwng eu llety arferol yn ystod y tymor a'u llety dros dro.

Gall myfyrwyr hefyd hawlio costau teithio dyddiol o'u llety dros dro i'w safle lleoliad, ar yr amod bod cost y teithio hwnnw'n fwy na chost teithio dyddiol o'u llety arferol yn ystod y tymor i'w man astudio arferol.

Rhaid i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth o gost eu llety dros dro. Rhaid i hyn ddangos enw'r myfyriwr, cyfeiriad ble yr arhosodd a'r dyddiadau yr arhosodd. Dylai'r wybodaeth hon fod ar bapur anfoneb, derbynneb neu bapur â phennawd..

Mae'r Brifysgol yn gallu archebu a thalu'r costau llety ar ran y myfyriwr a'i hawlio'n uniongyrchol oddi wrth AaGIC yn y ffordd arferol

Ni all myfyrwyr hawlio cyfradd uwch o fwrsariaeth tra byddant ar leoliad ymarfer.

5. Sut mae myfyrwyr yn gwneud cais am gostau lleoliad ymarfer?

5.1 Cyfrifoldebau myfyrwyr

Dylid cyflwyno ffurflen hawlio i brifysgol neu goleg y myfyriwr gyda'r holl dderbynebau a thystiolaeth llety gofynnol (os yw'n berthnasol). Dylid cynghori myfyrwyr i gymryd llungopi o'u cais a'r holl dystiolaeth ategol, gan y bydd angen iddynt gyfeirio at hyn pe bai unrhyw broblemau'n codi.

Rhaid cyflwyno hawliadau o fewn 3 mis i ddiwrnod olaf y lleoliad neu ni fyddant yn cael eu had-dalu. Os bydd myfyriwr yn cyflwyno hawliad i'r brifysgol y tu allan i'r terfyn amser dylid ei ddychwelyd iddo a pheidio â'i brosesu.

5.2 Cyfrifoldebau gweinyddwr y Brifysgol

Unwaith y bydd myfyriwr wedi cyflwyno ffurflen hawlio, rhaid iddi gael ei gwirio'n llawn gan weinyddwr y brifysgol i sicrhau bod y math mwyaf cost effeithiol o gludiant wedi'i defnyddio a bod yr hawliad yn gywir ac yn unol â'r profiad lleoliad ymarfer a wnaed a'i gyflwyno ar y fersiwn ddiweddaraf o'r ffurflen sydd ar gael.

Ar ôl ei wirio a'i ddilysu, dylai'r hawliad wedyn gael ei ardystio trwy ddarllen, llofnodi, stampio a dyddio'r datganiad.

Os gwneir unrhyw newidiadau i hawliad y myfyriwr gan weinyddwr y brifysgol, dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr am hyn, cyn i'w ffurflen hawlio gael ei phrosesu.

Rhowch wybod i fyfyrwyr am eich amserlenni ar gyfer cyflwyno ffurflenni hawlio Treuliau Lleoliad Ymarfer i reoli eu disgwyliadau o ran pryd y bydd eu cais yn cael ei asesu a'i dalu.